



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Nodiadau i'r tiwtor

Cyffredinol

Crëwyd y nodiadau hyn i gyd-fynd â'r hyfforddiant ynganu er mwyn eich helpu i ddechrau meddwl am sut y gellwch chi ymgorffori ynganu yn eich dosbarth. Y neges i'r dysgwyr yw bod ynganu yn elfen o'r iaith, fel geirfa, gramadeg, sgiliau gwranddo ac ati, y gallant ei gwella dros amser. Ni fyddant yn ynganu popeth yn berffaith o'r cychwyn cyntaf ac ni ddisgwylir iddynt wneud ychwaith. Yn yr un modd ag y byddwch chi fel tiwtor yn helpu datblygu eu gallu i ddefnyddio'r iaith, dylech fynd ati i ymgorffori elfennau o ymarfer ynganu trwy gydol unrhyw gwrs.

Cofiwch, nid oes disgwyl i bawb swnio fel siaradwr mamiaith. Gall acen fod yn rhywbeth pwysig a phersonol iawn i rai. Er hynny, mae'n rhaid i ddysgwyr fedru gwahaniaethu rhwng seiniau'r Gymraeg er mwyn cael eu deall ac er mwyn deall siaradwyr eraill hefyd. Er enghraifft:

Ynganu r: Nid oes **r** grech ("tril, **r** wedi'i rholio") yn Saesneg fel arfer na rhai ieithoedd eraill, ac nid yw'n angenrheidiol rholio pob **r** Gymraeg "yn berffaith" wrth ddweud pethau fel **cartref**, **record**, **arwr**. Os yw'r rholio yn achosi problemau i ddysgwr, caiff ddefnyddio **r** sy'n debyg i'r Saesneg neu iaith arall er mwyn bod yn ddealladwy. Fe geir sawl math o **r** yn y Gymraeg hyd yn oed.

Y neges i'r dysgwyr: "Yn Gymraeg mae'r **r** fel arfer yn cael ei rholio ychydig, ond os yw hyn yn anodd, unrhyw fath o **r** sy'n dderbyniol gan ei bod yn ddealladwy."

Ynganu ch: Nid oes gan bawb **ch** yn y Saesneg, ond nid oes modd yn yr achos hwn ddefnyddio **c** gan fod hon yn sain ar wahân yn y Gymraeg ac mae gwahaniaeth rhwng **Beth ddylech chi wneud i wella'ch Cymraeg?** a **Beth ddylai ci wneud i wella'ch Cymraeg?**. Dyma sain felly y mae'n rhaid gweithio arni os yw dysgwr am gael ei ddeall.

Y neges i'r dysgwyr: "Mae dweud **ch** yn wahanol i **c** yn bwysig yn y Gymraeg. Wnawn ni ymarfer hyn yn rheolaidd yn y dosbarth a dw i eisiau i chi wneud tu allan hefyd."

Isod mae syniadau o beth y gallwch chi ei wneud i ddysgu ynganu i'ch dysgwyr yn ogystal â geiriau defnyddiol i enghreifftio ac ymarfer pwyntiau penodol. Man cychwyn yw'r rhain felly byddwch yn greadigol a rhannwch eich syniadau gyda'ch cyd-diwtoriaid, os gwelwch yn dda!

Sleid 13

Beth sy'n digwydd yn y geg?

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y parau hyn?

/p, b/ **pan**, **ban**


/t, d/ **to**, **do**

/θ, ð/ **beth**, **bedd**

/f, v/ **craff**, **craf**

/ŋ, ɲ/ **ngherddi**, **ngerddi**

parau
minimol



Dyma barau o seiniau di-lais a lleisiol

Pan mae tannau'r llais yn dirgrynu wrth gyanu sain, fe geir sain **leisiol**. Heb y dirgryniad, sain **ddi-lais** sydd gennych. Mae rhai seiniau'r Gymraeg yn dod mewn parau – un ddi-lais ac un leisiol. Dyma'r gwahaniaeth rhwng **ff** a **f** a rhwng **th** a **dd**. Mae'r geg yn gwneud yr un peth wrth ynganu'r ddwy ond yn y sain gyntaf nid oes dirgrynu, lle y mae dirgrynu yn yr ail un. Mae orgraff (system sillafu) y Saesneg yn dangos gwahaniaeth rhwng **ff** a **f** Gymraeg fel arfer (sef, **f** a **v**) ond nid yw'r gwahaniaeth rhwng **th** a **dd** yn amlwg yn Saesneg – **th** yw sillafiad y ddwy e.e. di-lais: **thin**, **thought**, lleisiol: **this**, **though**.

Gyda'r dysgwyr: Dysgu gwahaniaethau rhwng th a dd

1. Gofynnwch iddynt ddweud **ffff** a **vvvv** Saesneg (sef **f** a **ff** Gymraeg) gyda dau fys ar eu hafal breuant (S. Adam's apple) er mwyn teimlo'r gwahaniaeth. Mae hyn yn dysgu iddynt fod dirgrynu, neu ddiffyg dirgrynu, yn creu sain newydd. Gellid ymarfer gyda geiriau megis **ffan fan, fi ffi, saf saff, offer ofer** os oes angen.
2. Nawr gofynnwch iddynt ddweud **ththththth** a **ddddd** gan deimlo'r dirgryniad eto. Mae modd gofyn "Oes **th** neu **dd** yn [gair Saeseng]?" e.e. **th**: **thin, thick, theme, thought**; **dd**: **this, that, then, though**.
3. Wedyn mae angen ymarfer parau minimol (parau lle mae un sain yn wahanol) Cymraeg e.e. **beth bedd, llath lladd, garth gardd, gwaeth gwaedd**. Ydyn nhw'n gallu meddwl am eiriau Cymraeg eraill neu enwau lleoedd sy'n cynnwys **th** neu **dd**?

Sleidiau 19

Her: Seiniau cwbl newydd

Cytseiniad
Cymraeg nad
ydynt yn y Saesneg:

ffrithiol: /t/ **lle**, /x/ **chi**

crych: /r/ **rhy**, /r/ **car**

trwynol: /m/ **mha**, /n/ **nhŷ**,
/ŋ/ **nghath**

Peidiwch â meddwl
am seiniau unigol
bob tro

Defnyddio drych: *Llanelli*
/θla'neθli, χla'neχli/ >
/tə'neθli/

Gwnes i weld chi /ki:/ > /xi:/
"I can't roll my r's." – [fideo](#)

Helpu'r dysgwyr i
ddeall beth sy'n
digwydd yn y geg

fy /və, ən/ + *nhad*
/na:d/ [ŋ^ha:d]
> *fyn had* /vən 'ha:d/

ym /əm/ + *Mharis*
/'marɪs/ ['m^harɪs]
> *ym Haris* /əm 'harɪs/

sain > gair > brawddeg

Dyma seiniau cytseiniol sy'n anodd i ddysgwyr oherwydd nad ydynt yn bodoli yn y Saesneg. Gallwch chi fel tiwtor wneud dau beth i helpu'r dysgwyr i ddechrau medru ynganu'r seiniau hyn.

1. Y peth cyntaf yw codi eu hymwybyddiaeth o beth sy'n mynd ymlaen yn y geg.

Gyda'r dysgwyr: Dysgu dweud ll

1. Gofynnwch iddynt ddweud **l** hir. Dyna leoliad cywir y tafod er mwyn ynganu **ll** hefyd. Cânt edrych ar geg y person drws nesaf. Os yw eu partner yn rhoi ei ben yn ôl, dylai allu gweld blaen ei dafod uwchben ei ddannedd isaf. Pwysleiswch na ddylid symud y tafod o'r lleoliad hwn yn y geg trwy gydol y gweithgaredd.
2. Gofynnwch iddynt ddweud **l** hir eto ond gan sibrwd. Dyma **l** ddi-lais. **ll** hefyd sy'n ddi-lais.
3. Gofynnwch iddynt ddweud **ll** hir. Gwneir hyn drwy ddal y tafod yn yr un lleoliad, gan sibrwd, ac anadlu allan yn galed. Esboniwch hyn ac y dylent teimlo'r anadl yn dod allan dros ochrau'r tafod.
4. Os ydynt wedi llwyddo i ddweud **ll** yn gywir, ni ddylent fod wedi symud eu tafodau. Gallwch chi fynd o gwmpas y dosbarth ac edrych ar eu cegau wrth iddynt ynganu'r sain i sicrhau nad yw'r tafod wedi/yn symud. Gallan nhwthau wneud hyn gartref o flaen drych.
5. Y cam nesaf, efallai yn y wers nesaf, fyddai symud ymlaen at eiriau syml. Cofiwch fod **ll** ar ddechrau gair yn haws ei dweud nag ar y diwedd. Gallwch fynd trwy'r geiriau hyn dros sawl sesiwn:
dechrau: **llan, lle, llif, llo, llu, llw, llyfu**
canol: **allan, gallu, gelli, colli, dallu**
diwedd: **arall, gwall, call, ar goll, pell, pwll**
dwy **ll**: **llall, lleill, llinell, cylllell, Llanelli**
l – ll: **palu pallu, malu mallu, galwn gallwn, dalwch dallwch**

Gyda'r dysgwyr: Dysgu dweud **ch**

1. Gofynnwch iddynt ddweud **c** sawl gwaith. Gwneir **ch** mewn lleoliad tebyg yn y geg.
2. Gofynnwch iddynt ddweud **c** mewn ffordd fwy "ffrwydrol" gyda llawer o anadl ar ei hôl. Rydych am ynganu rhywbeth tebyg i **c-ch**, **c-ch**, **c-ch**.
3. Gofynnwch iddynt ddal y sain olaf hon yn hirach ac yn hirach: **c-chch**, **c-chchch**, **c-chchchchch**. Yn y pen draw, rydych yn anelu at ddweud rhan **chchch** y sain heb y **c** gychwynnol. Gall hyn gymryd amser i rai.

Ffordd arall o'i dysgu fyddai cyfeirio at **ch** mewn ieithoedd eraill megis Almaeneg yn enw'r cyfansoddwr **Bach** neu'r gair Saesneg **loch**. Mae fideos ar YouTube o sut mae ynganu **j** Sbaeneg Ewropeaidd a allai fod o gymorth. Yn dechnegol, mae'r seiniau hyn, yn ogystal a'r **c** Gymraeg, yn cael eu cynanu â chefn y tafod wedi'i godi at gefn taflod y genau (S. roof of the mouth). Ar y llaw arall, mae'r **ch** Gymraeg yn cael ei chynanu bellach yn ôl, a chefn y tafod yn erbyn yr wfwla (S. uvula - y tafodig bach a welwch yn hongian yng nghefn y geg). Dywedwch **chchch** i weld a ydych yn teimlo'r sain wrth yr wfwla. Gallwch weithio ar hyn gyda'r dysgwyr hefyd.

Mae'n bwysig dysgu gwahaniaethu rhwng **c** a **ch** (ac o bosibl **h** a **ch** i rai), felly defnyddiwrch geiriau fel:

ci chi, marc march, fforc fforch, arc arch
hi chi, hynt chynt, hŷn chŷn

Gyda'r dysgwyr: Dysgu dweud **r**

Peidiwch â threulio gormod o amser y dosbarth yn ceisio dysgu rholio'r **r** i bobl sy'n ei chael yn anodd. Mae digonedd o fideos ar YouTube. Fel gwaith cartref, gofynnwch iddynt chwilio am "how to roll r" a bydd fideos am **rr** Sbaeneg ac **r** Eidaleg yn help mawr (ond dylent osgoi unrhyw beth Ffrangeg). Mae sawl ffordd o ddysgu rholio **r** felly gofynnwch iddynt chwilio ac arbrofi nes bod rhywbeth yn cydio.

Y neges gyda sain **r** yw nad oes angen ei gor-wneud hi gyda'r rholio. Mae sawl math o **r** yn y Gymraeg beth bynnag. Rhaid ynganu rhyw fath o **r** (hyd yn oed un Saesneg) pan welir un yn y Gymraeg. Nid yw'r **r** yn dawel yn y **car** Cymraeg fel y gall fod yn Saesneg.

2. Yr ail beth yw pwysleisio ei bod yn haws ynganu rhai seiniau fel rhan o air neu ymadrodd yn hytrach nag yn unigol weithiau.

Gyda'r dysgwyr: Dysgu dweud **ng**, **ngh**, **mh**, **nh** ar ddechrau gair (treigladd trwynol)

Mae'r treigladd trwynol fel arfer yn digwydd ar ôl **fy** neu **yn**. Os symudwch chi'r sain drwynol anodd at ddiwedd y gair blaenorol hwnnw, mae'n haws ei dweud, e.e.

fy ngŵr > fyng ŵr
yng Nghaerdydd > yng Haerdydd
fy mhwynt > fym hwynt
yn Nhal-y-bont > yn Hal-y-bont

Mae dysgwyr sy'n dweud **fy nŵr** am **fy ngŵr** yn meddwl am yr ymadrodd fel dau air, **fy** + **ngŵr**, ond dylent gael eu hannog i feddwl amdano fel un uned, **fyngŵr**.

Awgrymir ymarfer geiriau lle mae llafariad yn dilyn **ng**, **ngh**, **mh**, **nh** yn gyntaf, fel uchod, ac yna symud ymlaen at eiriau mwy anodd a chytsain ar eu hôl, e.e. **fy ngwraig**, **yng Nghlydach**, **fy mhlant**, **yn Nhreorci**.

Clymau tafod

Oer yw'r eira ar Eryri

Hwch goch a chwech o berchyll cochion bach

Mae Llewellyn y llyfrgellydd o Lanelli wedi llyfu llawer o lyffaint

Rowliodd lori Lowri lawr yr allt

Ydy dy dei di neu dei du Dai yn dy dŷ du di neu dŷ du Dai?

Academi
Datblygu sgiliau'r gweithlu
Dysgu Cymraeg

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Gyda'r dysgwyr: Defnyddio clymau tafod (a brawddegau eraill)

Mae sawl ffordd o ddefnyddio clymau tafod er mwyn ymarfer ynganu. Gallwch chi feddwl am rai gwell ond dyma syniadau fel man cychwyn.

- Trefnu'r geiriau (darnau o bapur neu unigolion yn sefyll mewn rhes â gair yr un) ac yna ynganu'r frawddeg
- Gêm gylch adeiladu brawddeg:
 - person 1: **Oer**
 - person 2: **Oer yw'r**
 - person 3: **Oer yw'r eira...**
 neu gellir gweithio'n ôl:
 - person 1: **Eryri**
 - person 2: **ar Eryri**
 - person 3: **eira ar Eryri...**
- Mae canu rhai pethau yn haws na'u dweud weithiau.
- Cydadrodd: clapio ar y sillafau pwysleisiol: **Oer yw'r eira ar Eryri**; cyflymu ac arafu; dweud y brawddegau gan ddefnyddio emosiynau gwahanol

Nid oes rhaid defnyddio clymau tafod. Beth am ddewis brawddegau sy'n cynnwys seiniau neu eiriau mae eich dysgwyr yn eich dosbarth yn cael trafferth eu hynganu?

Beth yw'r heriau gyda llafariad?

Academi
Datblygu sgiliau'r gweithlu
Dysgu Cymraeg

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Dyma restrau o eiriau y gellwch eu defnyddio i ymarfer ynganu rhai o'r problemau sy'n codi gydag ynganu llafariad. Mae modd eu troi i mewn i unrhyw un o'r gweithgareddau clasurol e.e. drilio, cardiau fflach, llongau rhyfel, Pelmaniaeth (seiniau tebyg), gêm byrddau gwyn bach, arddweud.

Dim to bach – to bach (llafariad fer – hir)

man mân, can cân, ger gêr, llen llen, ffon ffôn, mor môr, gwn gŵn, twr tŵr, dim dîm, bum bûm, hyn hŷn

u

Ar gyfer yr **u** ogleddol, mae rhai tiwtoriaid yn cyfeirio at leoliad y tafod: "Mae **i** yn y ffrynt, mae **w** yn y cefn, mae **u** yn y canol." Yn y de wrth gwrs, **i** yw **u**.

byr: pump, punt, tun, munud, busnes, clustog, -us (anffodus, lwcus, hapus, taclus)

hir: un, du, sudd, bûm, cul, tu, mur

w

byr: plwm, cwm, hwnt, twp, cwt

hir: dŵr, mwg, drws, cŵl, tŵr

gwrthgyferbynnu deuseiniaid

ai – ei: tai tei, gair geir, dail deil

au – eu: nau neu, gwau gweu, crau creu

ei – e (hir): tei te, lein lēn

eu – e (hir): gweu gwe, euog eog

aw – ew: taw tew, mawn mewn, rhaw rhew, daw dew, tawch tewch

aw – ow: dawn down, Awen Owen, baw bow

ew – uw: cewch cuwch, ewch uwch, dew Duw

oi – wy: troi trwy, lloi llwy, rhoid rhwyd

oe – wy: oen ŵyn, poeth pwyth, croen crwyn, ffroenau ffrwynau

wy – yw: dwy dyw, llwy llyw, bwy byw, mwy myw

ai – ei – e (hir) – i (hir): tai tei te ti

au – eu – e (hir) – i (hir): gwaun, gweu'n, gwên, gwin

aw – ew – yw – w (hir): daw'r dewr dyw'r dŵr, llaw llew llyw llw

aw – ow: dawn down do'n, baw bow bo'n

Sleid 26

Darogan seiniau y, yw, ae

llythren	sillaf olaf	enghraifft	sillaf arall	enghraifft
y	/ɛ, ɪ/ ac /ɨ:, i:/	<i>cyn, hyd</i>	/ə/	<i>cyni, hydref</i>
yw	/ɛu, ɪu/	<i>byw, clyw</i>	/əu/	<i>bywyd, clywed</i>
ae	/a:ɨ, ai/	<i>aeth, taer</i>	/ei, ei/	<i>aethon, taeru</i>

- eithriadau i y: yn (ym, yng), fy, dy, cyd- (cydadrodd), geiriau benthg
- eithriadau i yw: rhyw- (rhywun, rhywbeth, rhywle) sef /ɪu/

Mae dysgu'r rheoli hyn o gymorth mawr i ddysgwyr ac mae'n gwneud i'w Cymraeg swnio'n llawer mwy naturiol a dealladwy. Dylid dysgu rheol **y** o'r cychwyn cyntaf ac yna gallwch gyflwyno'r lleill yn nes ymlaen ar adeg briodol e.e. **ae** wrth gyflwyno **aeth**, **aethon**, **aethoch** neu wrth drafod geirfa fel **gwasanaethau**. Dyma eiriau i chi eu defnyddio:

eithriadau: y, yr, yn, fy, dy, nyrs, syr

eithriadau: rhyw- e.e. rhywbeth, rhywun, rhywun, rhywle, rhywsut, rhywbrydf

ychwanegu terfyniadau i glywed y gwahaniaeth yn sain ae: [gwasanaeth/au](#), [gwahaniaeth/au](#), [traeth/au](#), [blaen/au](#), [haen/au](#), [cae/au](#), [ael/iau](#), [gwaed/u](#), [llaes/u](#), [taer/u](#), [maeth/u](#), [saeth/u](#), [staen/io](#), [draen/io](#), [gwaeth/af](#), [aeth/on/och](#), [gwaeth/on/och](#), [gaeth/on/och](#), [daeth/on/och](#), [chwarae/ais/on/och/wr](#)

- Y problem:
 lledlafariad + llafariad hir /wi:/, wi:/ gwych, gwydd
 lledlafariad + llafariad fer /wə, wɪ/ chwyrn, gwynt
 lledlafariad + llafariad fer /wa/ chwynu
 De: deusain /oi/ wythnos, wyth, gwýdd
 Gogledd: deusain fer /oi/ wythnos, hwylio
 Gogledd: deusain hir /u:/ wyth, gwýdd

- **Her arall: Amrywio tafodieithol**
Sut rydych chi'n ynganu gwybod, gwyllo, synnwyr, cyfarwydd?
Ai y neu yr sydd gennych o flaen *Wyddfa*, *Gwyddeleg*, *Wyddgrug*, *gwybodaeth*?

- Tueddiadau (yn hytrach na rheolau bendant)
- Ar ddechrau gair. *chw- a gw-* gair fel arfer = lledl-afariad /w/ /wi:/ wi:/ *chwys, gwysh* (cymharer *llys, sych*)
/ws, w:/ *chwynn, chwynn, gwyn, gwynw* (cym. *llyn, cyrn, hyn, rhyw*)
/wa/ *chwynnu, chwynnu, gwynnu, gwynw* (cym. *tynnu, dyrnu, synnu, tybed*)
- Ar ddechrau gair. *Cw- arall = deusain*
Gogledd: geiriau unsill /u:i/ *llwy, trwyn, bwyd, clwyd*
Gogledd: geiriau lluosill /oi/ *llwyau, trwynol, bwydydd, clwydo*
De: /oi/ *llwy, trwyn, bwyd, llwyau, trwynol, clwydo*

- -wyd = /ɔi, ɔi/
enill**wyd**, coll**wyd**, darlled**wyd**, pryn**wyd**
- -wyr = /wɜ, wɪ/
enill**wyr**, coll**wyr**, darlled**wyr**, pryn**wyr**
- to bach yn dangos cnewyllyn y sillaf
/u:ɪ, ɔi/ g**u**yl, **u**yn, g**u**dd, **u**yr
/wɜ: wɪ:/ a**w**ŷ, a**w**ŷr, a**w**dd

- Mewn **chwy** ac **gwy** ar ddechrau gair, mae'r **w** yn tueddu i fod yn lled-lafariad (sain **wedi**) e.e. **chwys/u, gwych, chwynn/u, gwynt/og, gwyn/nu, chwyn/nyn/nu**.
- Gyda chytseiniaid eraill (nid **ch** na **g**) + **wy** ar ddechrau gair, deusain (sain **wythnos**) yw'r **wy** fel arfer e.e. **llwy/au, trwyn/au/ol, bwyd/ydd/o, clwyd/i/o**.
- Deusain sydd yn -**wyd** e.e. **enillwyd, collwyd, darlledwyd, enwebwyd, darllenwyd, prynwyd**.
- Lled-lafariad sydd yn -**wyr** e.e. **enillwyd, collwyd, darlledwyd, enwebwyd, darllenwyd, prynwyr**.
- Mae'r **to** bach yn helpu e.e. **gŵyl, ŵyn, gŵydd, ŵyr** ond **gwŷs, gwŷr, gwŷdd**.

Gall sain **wy** amrywio o ardal i ardal hefyd, felly efallai y byddai'n werth trosglwyddo'r neges hon i'r dysgwyr gan ofyn iddynt wrando yn ofalus ar yr hyn yr ydych chi'n ei ddefnyddio a'ch efelychu.

Sleid 32

Pwyslais

- Pwyslais – ar sillaf mewn gair neu ar air mewn ymadrodd
e.e. *rhyfedd*, *ffenestri*, *Cymraeg*, *ambiwlans*
- Mae'r acen mewn geiriau Cymraeg ar y goben (y sillaf olaf ond un) fel arfer
e.e. *darllen*, *darlleniad*, *darlleniadau*; *cyfrwngddarostyngedi**gaeth*
- Dysgwyr: Pwysig iddynt ei ddysgu
gwallau cyffredin: *adeilad*, *cymylog*, *tramor*, *dau ddeg*, *anifail anwes*

Gyda'r dysgwyr: Pwysleisio'r goben

Rhaid dysgu hyn yn gynnar a gellir chwarae gydag ychwanegu terfyniadau ar eiriau ac ymarfer symud y pwyslais. Tanlinellwch y pwyslais neu ysgrifennwch ef mewn lliw gwahanol i ddechrau e.e.

canol > *canolfan* > *canolfannau*
darllen > *darlleniad* > *darlleniadau*
awyr > *awyren* > *awyrennau*
cyfrif > *cyfrifiad* > *cyfrifiadur* > *cyfrifiaduron*
ysgrif > *ysgrifen* > *ysgrifennydd* > *ysgrifenyddes* > *ysgrifenyddesau*

Mae goblygiadau eraill i'r ffaith bod y pwyslais ar y goben a fydd o ddiddordeb i'r dysgwyr, e.e. pwyslais neu ddiffyg pwyslais sy'n esbonio ymddangosiad *h* mewn *aros* > *arhosodd*, *angen* > *anghenion*, *brenin* > *brenhines* > *breninesau*. Hyd yn oed geiriau fel *arholiadau* a *cymathu* a gaiff eu hynganu fel *aroliade/a* a *cymhathu* gan rai ar lafar.

Wrth drafod a dysgu geirfa, gwrandewch am broblemau pwyslais. Clywir dysgwyr yn pwysleisio'r sillaf anghywir mewn geiriau fel *adeilad*, *cymylog*, *dau ddeg*, *tramor*, *anifail (anwes)*, a weithiau nid ydynt yn sylweddoli hynny. Gellwch ddefnyddio clapio ar y goben wrth ynganu'r gair neu mae gweiddi'r sillaf bwysleisiol yn helpu iddyn nhw (a'r dosbarth drws nesaf) glywed hefyd.

Pwyslais

- Pwyslais – ar sillaf mewn gair neu ar air mewn ymadrodd
e.e. *rhyfedd, ffenestri, Cymraeg, ambiwlans*
- Mae'r acen mewn geiriau Cymraeg ar y goben
(y sillaf olaf ond un) fel arfer
e.e. *darllen, darlleniad, darlleniadau; cyfrwngddarostyngedig*
- Dysgwyr: Pwysig iddynt ei ddysgu
gwallau cyffredin: *adeilad, cymylog, tramor, dau ddeg, anifail anwes*

Mae'r tri phwynt cyntaf, yn enwedig, yn fuddiol i ddysgwyr sydd eisoes wedi dysgu ychydig o Gymraeg e.e. lefel Sylfaen. Sylwer:

Y cysylltnod

di-flas a **diflas** yw'r enghraifft glasurol o hyn. Sicrhewch hefyd eich bod chi yn gwybod sut mae sillafu geiriau'n gywir e.e. nid yw *mamgu, penblwydd, camdrin, cyfweld, gorwneud* yn gywir – *mam-gu, pen-blwydd/pen blwydd, cam-drin, cyf-weld, gor-wneud* sy'n iawn. Gallwch wirio sillafiad cywir unrhyw air yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru ar-lein (geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html).

Acenion diacritig

Os oes to bach ar sillaf olaf, mae'r llafariad honno yn cael ei phwysleisio ac mae'n hir e.e. *gwahân, cangarw, apêl, hwrê, randibw*. Gydag acen ddyrchafedig, eto pwysleisir y llafariad ond un fer sydd gennym yma e.e. *casáu, rysâit, coffáu, carafân, sigarét, syrpréis*. Soniwch am y gwahaniaeth rhwng *ymladd* ac *ymlâdd* a rhwng *achau* ac *iacháu*.

h ar ddechrau sillaf olaf

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am ferfenwau sy'n gorffen gyda **-hau** e.e. *glanhau, mwynhau, rhyddhau, cadarnhau, parhau, sicrhau* i ddangos y rheol yma.

Enwau lleoedd

Mae nifer mawr o enwau ein trefi â'r pwyslais ar y sillaf olaf. Weithiau, bydd hyn yn amlwg o'r sillafiad, a fydd yn dilyn y rheolau uchod, e.e. *y Bont-faen, Castell-nedd, Betws-y-Coed, Penarlâg, Aberdâr, Cwmbrân, Llandyfái, Trelái*. Er hynny, nid yw'n glir mewn geiriau fel *Abergwaun, Pencoed, Caerdydd*. Mae'r pwyslais ar y sillaf olaf yma oherwydd mai dau air yw'r enwau hyn mewn gwirionedd, a'r pwyslais ar yr ail air: *aber Gwaun, pen coed, caer Dydd (= Taf)*. Efallai y bydd eich dysgwyr yn gyfarwydd â'r ynganiad cywir yn barod heb hyd yn oed ystyried ble mae'r pwyslais, sy'n wych, ond mae'r wybodaeth uchod yn ddefnyddiol i'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â rhai o'r lleoedd hyn. Cewch ddod o hyd i sillafiad safonol enw ar wefan Comisiynydd y Gymraeg (www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/EnwauLleoedd/Pages/Chwilio.aspx).

Pwyslais ar y rhagoben

Geiriau benthyg

e.e. *ambiwylans*, *comedi*, *testament* (ond *comedi*au, *testament*au)

Cytseiniaid olaf sillafog ar ddiwedd clysytyrau

e.e. *llanastr*, *ffenestr*, *anadl* > *llanast*, *fffenest*, *anal*

I'r **dysgwyr**: Fel arfer yn iawn gyda hyn

Ond gan bwyll: *noson gomedi*!

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng *seleri* a *seler*?

Nid yw hyn yn broblem fel arfer ond weithiau mae dysgwyr yn ei gweld yn anodd adnabod ffurfiau treigledig ac felly yn rhoi'r pwyslais ar y goben gan feddwl mai gair brodorol ydyw e.e. *(noson) gomedi*, *(Hen) Destament*, *(ei) hambiwylans*.

Pwyslais a goslef

- *I want a coffee, please* = *Dw i eisiau coffi, plis / os gwelwch yn dda*
- *I want coffee* = *Dw i eisiau coffi / Coffi dw i eisiau*
- *She's a teacher* = *Mae'n athrawes / Athrawes yw hi*
- *Rhaid iti / i ti fynd*
- *my father*
my father = *fy nhad (i)*
my father = *fy nhad (i)*
my father = *fy nhad i*
- *Siân's older brother's cat's name* = *enw cath brawd hynaf Siân*

Gyda'r dysgwyr: Peidio â phwysleisio **fy, dy, ei, ein, eich, eu**

Pwynt pwysig i ddysgwyr yma yw na ellir pwysleisio'r rhagenwau meddiannol (**fy, dy, ei, ein, eich, eu**) yn y Gymraeg. Os ydynt am ddweud *my father*, rhaid pwysleisio'r rhagenw sy'n dilyn yr enw: *fy nhad i*. Mae modd ymarfer hyn gyda gweithgareddau. Enghraifft fyddai:

1. Rhowch wrthrych i bawb neu gofynnwch iddynt ddangos llun ar eu ffôn neu wythrych o'u poced/bag.
2. Maent yn crwydro ac wrth gwrdd â phartner, mae person 1 yn codi gwrthrych neu ddangos llun:

Person 1: *Dyna dy bensil/ferch/wyliau di?*

Person 2: *Nage/Naci, nid dyna fy mhensil/merch/ngwyliau i.*

Person 1: *O ie, dw i'n dwp. Dyna fy mhensil/merch/ngwyliau i.*

Mae modd gwneud pethau tebyg mewn cylch neu barau. Am fwy o wybodaeth am ynganiad y rhagenwau meddiannol eu hunain, edrychwch isod dan sleid 46.

Sleidiau 39-41

Ffonotacteg: Syniadau

- /ŋ/ ar ddechrau gair: **ng**waith
I'r dysgwyr: hollti geiriau yn wahanol: *fy ngwaith > fyng waith*
- /a/ ar ddiwedd gair: **yma**
I'r dysgwyr: gwahaniaethu: /'ama/ ac /'ama/
- /ɔ/ ar ddiwedd gair: **nofio**
I'r dysgwyr: tynnu: *nofion > nofio, cofion > cofio*
- /r/ ar ddiwedd gair: **car, iâr**
I'r dysgwyr: ychwanegu: /a/ > /ar/ *ar*, /a:/ > /a:r/ *âr* (*car câr, iâr iâr*)



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Ffonotacteg: Syniadau

- cyfuniadau /gwl, gwn, gwr/
• I'r dysgwyr: gwefusau crwn: [g^wl, g^wn, g^wr] *glad, greud, graig > gwlad, gwneud, gwraig*
- cyfuniadau o gytseiniad neu lafariad: *bodddhaol, cnocio, tiws*
• I'r dysgwyr: esbonio ac arafu:
 - /a:ɔ/ *bodddhaol, brogoad, sefyllfaeodd*
 - /kn/ *cnocio, cnau, cnwd*
 - /tl/ *tlawd, tiws, tiody*
 - /tn/ *llnau* (gogledd)
 - llafariad orgraffyddol dwbl: *deallir, cynorthwydd, Tsieineeg*



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Syniadau i ddysgu'r pwyntiau hyn:

Gyda'r dysgwyr: **ng** gychwynnol

Fel y gwelwyd uchod dan **Dysgu dweud ng, ngh, mh, nh**, gellir hollti'r geiriau yn wahanol er mwyn hwyluso'r broses o'u hynganu. Dylent ddweud ymadroddion sy'n cynnwys seiniau fel y rhain fel un uned yn hytrach na geiriau unigol e.e. **fyngwâr** yn lle **fy ngwâr**.

Gyda'r dysgwyr: **a** ar ddiwedd gair

Yr enghraifft glasurol yw "Beth mae plant mewn ysgolion Saesneg yn ddweud wrth ateb y gofrestr yn Gymraeg? Ateb: **ym-y**. Ond beth mae plant mewn ysgolion Cymraeg yn ei ddweud? Ateb: **yma**." Yn yr achos hwn, gallwch ofyn iddynt ddweud yr un anghywir yn ogystal â'r un cywir er mwyn iddynt glywed a theimlo'r gwahaniaeth. Rhowch sylw wedyn i eiriau sy'n edrych fel Saesneg ond sy'n swnio yn wahanol megis **drama, coma, sinema, camera, stigma, agenda, igwana, gorila**. Ymarferwch ferfenwau e.e. **siopa, bwyta, benthyca** a berfau e.e. **coda, cofia, pryna** ac efallai geiriau gyda **-fa** e.e. **swyddfa, mynedfa, amgueddfa**.

Gyda'r dysgwyr: **o** ar ddiwedd gair

Mae dysgwyr yn ei chael yn iawn fel arfer wrth ddweud e.e. **nofion, cofion, ffonion** felly o'r pwynt hwnnw gallant ymarfer dynnu'r **n** olaf ond cadw sain yr o yr un peth: **nofio, cofio, ffonio**. Dylai eu cegau deimlo'r un peth wrth ddweud y ddwy **o** yn y gair. Ceir **o** olaf mewn miloedd o ferfenwau **n -o** (**seiclo, sgio, cwyno**) ac **-io** (**nofio, cofio, coginio, actio**), ffurf **ef** ar arddodiaid rhediadol (**gynno, arno, wrtho**) a hefyd mewn geiriau pwysig fel **croeso, cinio, cryno, yno**.

Gyda'r dysgwyr: **r** ar ddiwedd gair

Gydag **o** derfynol, roedd y dysgwyr yn ymarfer tynnu sain (**nofion > nofio**). Techneg arall yw ychwanegu sain e.e. **iâ > iâr**. Sylwch, pan ychwanegir **r** at lafariad yn Saesneg, mae'r llafariad honno yn hir fel rheol e.e. **ban > barn** ond nid yw hyn yn wir yn Gymraeg e.e. **ban > barn**. Dan ddylanwad y Saesneg, mae dysgwyr yn tueddu i ynganu geiriau Cymraeg fel **barn, parc, carn** gyda llafariad hir er mai llafariad fer sydd eisiau. Os oes llafariad hir cyn **r**, bydd to bach arni e.e. **iâr, pêr, blêr**. Defnyddiwch y geiriau canlynol i godi'r pwyntiau hyn gyda'r dysgwyr:

llafariad byr: **ban barn, can carn, pac parc, clec clerc, cwt cwrt, cap carp**

llafariad hir: **iâ iâr, mo môr, pe pêr, da dêr, pa pêr, sba sbâr, go gôr, ble blêr**

Hefyd, gellir ymarfer **'r**, sef y fannod, ar ôl llafariad:

mynd i gêm – mynd i'r gêm, dod o dre – dod o'r dre, Gest ti neges? – Gest ti'r neges?

Gyda'r dysgwyr: **gwl-, gwn-, gwr-** o flaen llafariad ar ddechrau gair

Nid lled-laafariad yw'r **w** mewn geiriau fel **gwlad, gwneud, gwraig** ac ati, ond gwefusau crwn, hynny yw, er mwyn ynganu **gwraig** dywedir **graig** ond â gwefusau crwn ar y dechrau wrth ddweud y **g**. Gellir ymarfer hyn drwy wahaniaethu geiriau fel **glân** a **gwlan**, **graig** a **gwraig**.

Er hynny, mewn rhai tafodieithoedd, collir yr **w** ar lafar. Efallai mai'r ffurfiau **glad** a **graig** sydd fwyaf cyffredin yn eich ardal chi, felly mae'n werth sôn am hyn wrth eich dysgwyr, hynny yw, gallai fod yn hollol dderbyniol iddynt ddweud **cefn glad** a **fy ngraig** ar lafar. Yn enwedig gyda **gwneud**, **gneud** neu **neud** yw'r ffurfiau arferol ar lafar yn ogystal â **Gnes i / Nes i, Gna i / Na i** am **Gwnes i** a **Gwna i**.

Gyda'r dysgwyr: Cyfuniadau o gytseiniaid neu lafariaid

Fel arfer, mae dysgwyr yn tueddu i geisio dweud geiriau fel **boddhaol, cnau, tlawd, Tsieineeg** yn rhy gyflym i ddechrau ac felly yn cawlio'r ynganu. Ceir **cy-nau** a **ty-lawd** â sillaf ychwanegol ddiangen, **boddhal** a **Tsieineg** â sain ar goll neu **boddaiol** a **Tsieiniog** â'r sain anghywir. Nid yw'n hawdd i rai ddysgu dweud y rhain felly y neges i bobl felly yw bod angen dechrau'n araf ac yna cyflymu wrth fynd ymlaen ac y gallai hyn gymryd tipyn i feistrol. Dechreuwch yn araf, gan ynganu ac ymarfer fesul sillaf neu sain hyd yn oed, ac yna cyflymwch nes ymlaen.

Rhestrau o eiriau defnyddiol eraill

geiriau sy'n edrych fel Saesneg

pump, hurt, dull, mud, murmur, campus, Arthur, her, barn, march, torch, person, archangel, blinder, brain, afraid, faint, sail, haul, dawn, draw, toes

llafariaid unsain (nid deusain) a chytseiniaid yr wyddor

enwau merched: **Ffion, Carys, Rhian, Llinos, Haf, Angharad, Bethan, Betsan, Mared, Angharad, Enfys, Anest, Fflur**

enwau bechgyn: **Dafydd, Gethin, Llion, Brychan, Ffred, Gareth, Cynan, Rhydderch, Steffan, Alun, Rhys, Tudur, Dylan, Morgan, Macsen, Gethin, Idris, Ifan, Gruff, Emrys, Dyfan, Mabon, Bryn, Emyr, Glyn**

enwau lleoedd: **Aberdâr, Aberfan, Amlwch, Arberth, Benllech, Bwcle, Castell-nedd, Cefn Bychan, Clydach, Cwmbrân, Dinbych, Glanamau, Harlech, Hwlfordd, Llanandras, Llambod / Llanbedr Pont Steffan, Llanfyllin, (Llangollen), Llangrannog, Llantrisant, Llanwrtyd, Llandaf, Machynlleth, Merthyr Tudful, Mostyn, Penarlâg, Penarth, Penfro, Port Talbot, Prestatyn, Rhisga, Rhosllannerchrugog, Rhuddlan, Rhuthun, Sanclêr, Talgarth, Tonypandy, Treffynnon, Tregaron, Ystrad Mynach**

arwyddion: **Ysgol, Allan, Canol y dref, Canol y ddinas, Araf, Arafwch, Allanfa dân, Ar agor, Tynnwch, Dim mynediad, Drws tân, Rhybudd, Prifysgol, Canolfan, Amgueddfa, Gât, Gyrrwch yn ofalus**

seiniau **iâr, siop, wal**; llafariaid olaf; sain y fannod y

enwau merched: **Siân, Heddwen, Hafwen, Gwen, Anwen, Gwenno, Menna, Mari, Cadi, Mali, Llio, Nia, Arianwen, Branwen, Bronwen, Rhiannon, Iola, Olwen**

enwau bechgyn: **Siôn, Ioan, Siencyn, Gwilym, Iestyn, Osian, Guto, Gwilym, Gwion, Rhodri, Iago, Ianto, Taliesin**

enwau lleoedd: **Aberhonddu, Abertyleri, Y Bala, Y Barri, Bedwas, Cas-gwent, Corwen, Cricieth, Dinbych-y-Pysgod, Y Dyfnant, Y Fenni, Ffestiniog, Y Fflint, Y Gelli Gandryll, Llangefni, Llanrhidian, Llanymddyfri, Y Mwmbwls, Y Pîl, Y Porth, Y Rhyl, Rhymni, Y Trallwng, Treorci**

arwyddion: **Stopiwch, Gwaith ffordd, Heddlu, Pont wan, Ysbyty, Dim ysmygu, Archfarchnad, Siopa, Gwthiwch, Ildiwch, Derbynfa, Stadiwm, Parc, Llyfrgell**

deuseiniaid

enwau merched: **Gwawr, Lowri, Alaw, Gwennan, Awen, Elliw, Awel, Gwalchmai, Falmai, Ceinwen, Eira, Lleucu, Eirlys, Eirwen**

enwau bechgyn: **Owen, Owain, Dewi, Llew, Hywel, Cai, Ieuan, Caio, Aneurin, Deio, Eifion**

enwau lleoedd: **Biwmares, Casnewydd, Castell Newydd Emlyn, Cei Newydd, Crucywel, Y Drennewydd, Llanilltud Fawr, Llansawel, Niwbwrch, Porth Tywyn, Porthcawl, Rhiwabon, Trefyclawdd, Tywyn, Dinas Powys, Dowlais, Aberdaugleddau, Abergwaun, Aberteifi, Betws-y-Coed, Y Bont-faen, Cil-y-Coed, Y Coed-Duon, Dolgellau, Glyn Ebwy, Gorseinon, Gwaun-Cae-Gurwen, Hirwaun, Llandeilo, Llanidloes, Pencoed, Trefdraeth, Trefynwy, Tregwyr, Y Waun, Yr Wyddgrug, Ystradgynlais**

arwyddion: **Diwedd, Croeso i Gymru, Maes parcio, Ar gau, Twmpathau, Traeth, Ffordd ddeuol**